Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Lleoli plant: gorchmynion amddifadu o ryddid

Canllawiau i'r darparwyr, y gweithwyr cymdeithasol a'r comisiynwyr lleoli ar leoli plant, yn amodol ar orchymyn amddifadu o ryddid (DoL), mewn lleoliadau heb eu cofrestru.

**Cyhoeddwyd:** 14 Awst 2023 **Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Awst 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/lleoli-plant-gorchmynion-amddifadu-o-ryddid-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.

# Gorchmynion Amddifadu o Ryddid (DoL)

Mae gorchymyn Amddifadu o Ryddid yn ei gwneud hi'n gyfreithlon i blentyn gael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'r llys yn awdurdodi'r gorchymyn ac mae unrhyw gyfyngiadau wedi'u nodi'n glir yn y gorchymyn.

Yn gyffredinol, mae angen lefelau uchel o ofal a goruchwyliaeth ar blant o unrhyw oedran, sy'n destun amddifadu o ryddid. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd plentyn sy'n destun amddifadu o ryddid yn cael ei leoli mewn cartref plant neu wasanaeth cartref gofal.

Mae llywodraeth y DU wedi rhoi rheoliadau ar waith sy'n gwahardd awdurdodau lleol yn Lloegr rhag lleoli plant o dan 16 oed mewn lleoliadau lle nad ydynt yn derbyn 'gofal'.

*Lleoliad yn Lloegr sy'n darparu gofal a llety, 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf' i blant yw cartref plant.*

*Lleoliad yng Nghymru sy'n darparu gofal a llety i blentyn am ei fod yn agored i niwed neu mewn angen yw gwasanaeth cartref gofal.*

*Rhaid i gartrefi plant fod wedi eu cofrestru ag Ofsted a rhaid i wasanaeth cartref gofal fod wedi ei gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).*

# Effaith y Gorchymyn Amddifadu o Ryddid

Mae gorchymyn Amddifadu o Ryddid yn ei gwneud hi'n gyfreithlon i blentyn gael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'r llys yn awdurdodi'r gorchymyn ac mae unrhyw gyfyngiadau wedi'u nodi'n glir yn y gorchymyn.

Mae'r gorchymyn yn caniatáu'r cyfyngiadau hyn fel uchafswm – nid yw'n golygu bod yn rhaid i chi, fel darparwr, gymhwyso'r holl gyfyngiadau bob amser (er enghraifft, os yw'r angen am y cyfyngiadau wedi lleihau a bod gweithiwr cymdeithasol y plentyn wedi cytuno ar hyn).

Dim ond gwneud y cyfyngiadau/amddifadu o ryddid yn gyfreithlon y mae'r gorchymyn – nid yw'n golygu nad oes angen i'r darparwr gofrestru ag Ofsted/AGC os yw'n rhedeg cartref plant neu wasanaeth cartref gofal.

Gall y llys wrthod awdurdodi gorchymyn amddifadu o ryddid os na fydd darparwr y lleoliad yn gwneud cais i gofrestru.

## Cofrestru

Os ydych yn awdurdod lleol sy'n lleoli plentyn, dylech wirio a yw'r lleoliad wedi'i gofrestru ag Ofsted yn Lloegr neu AGC yng Nghymru.

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod:

- cartref plant yn Lloegr yn cofrestru ag Ofsted.
- gwasanaeth cartref gofal yng Nghymru yn cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Mae'n drosedd gweithredu neu reoli lleoliad cartref plant neu wasanaeth gofal cartref os nad ydych wedi cofrestru.**

Os ydych yn ddarparwr heb eich cofrestru sy'n darparu lleoliad i blentyn â gorchymyn amddifadu o ryddid rhaid i chi wneud y canlynol:

- cofrestru ag Ofsted neu AGC ar unwaith – mae'n drosedd gweithredu heb gofrestru

Rhaid i ddarparwyr preifat:

- hysbysu'r awdurdod lleol sydd wedi lleoli'r plentyn am y camau a gymerwyd i gofrestru
- hysbysu'r awdurdod lleol bob amser am hynt y cais cofrestru – gall y llys ddefnyddio'r statws cofrestru wrth wneud penderfyniadau ar barhau â'r gorchymyn amddifadu o ryddid.

Gallwch wneud cais drwy **broses 'cais â blaenoriaeth' Ofsted** **(https://www.gov.uk/guidance/registering-childrens-homes-in-an-emergency-as-a-direct-result-of-covid-19-pandemic-fast-track-applications)** (Dolen allanol) neu **drwy broses ymgeisio ar-lein AGC** **(https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofrestrwch-i-ddarparu-gwasanaeth)**.

Os ydych yn awdurdod lleol sydd wedi lleoli plentyn mewn lleoliad heb ei gofrestru, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gais perthnasol i gofrestru a gawn. Yn Lloegr gallwch hefyd gysylltu â'ch SHMI lleol neu'ch rheolwr arolygu rheoleiddio i ofyn am ddiweddariad. Yng Nghymru gallwch gysylltu â thîm cofrestru AGC i gael cyngor a chymorth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/lleoli-plant-gorchmynion-amddifadu-o-ryddid-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.